

## **Annog y cyhoedd i beidio gwastraffu adnoddau hollbwysig yr awdurdod**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn annog trigolion i fod yn gyfrifol a pheidio â rhoi straen ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau.

Mae'r awdurdod yn gorfod ymateb i nifer gynyddol o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ogystal â choelcerthi anghyfreithlon a chwynion am niwsans sŵn - pan ddylai'r rhan fwyaf o adnoddau'r awdurdod fod yn cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar yr ymateb i'r achosion Coronafeirws.

Dywedodd Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, y Cynghorydd Richard Dew, "Mae hwn yn gyfnod heriol i ni i gyd ac rydym yn deall bod pawb dan bwysau ychwanegol sylweddol. Mae troseddau gwastraff fel y rhain yn bryder cenedlaethol cynyddol, ac yn anffodus rydym wedi gweld cynnydd mewn tipio anghyfreithlon, coelcerthi a chwynion sŵn yn Ynys Môn yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. "

"Mae ein hadnoddau eisoes dan bwysau difrifol ac mae'r lleiafrif sy'n gadael gwastraff yn anghyfreithlon ar ein ffyrdd ac yn y cefn gwlad yn cael effaith andwyol ar wasanaethau'r cyngor. Byddwn yn annog pawb i ymddwyn yn gyfrifol yn ystod yr amseroedd anodd hyn ac i gadw unrhyw wastraff ychwanegol nad yw'n addas ar gyfer y casgliadau gwastraff gweddilliol neu ailgylchu nes bod y gwasanaethau arferol yn ailddechrau ac i ymatal rhag cynnal partïon a chynnau coelcerthi. "

"Gall coelcerthi, yn benodol, p'un a ydyn nhw mewn gardd gefn neu adeilad masnachol, waethygu cyflyrau iechyd pobl o bob oed; gan gynnwys asthma a chyflyrau sy'n gysylltiedig ag anadlu; yn enwedig Covid-19. "

Ychwanegodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, y Cynghorydd Bob Parry, "Mae tipio anghyfreithlon yn falltodd ar dirwedd yr Ynys ac mae'n rhywbeth yr ydym ni fel awdurdod, yn ogystal â thrigolion, yn teimlo y dylid delio ag ef."

"Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod heriol hwn mae'n rhaid i'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar wasanaethau hanfodol er mwyn amddiffyn a chynorthwyo'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau."

"Rydym yn ffodus iawn i fyw mewn amgylchedd mor brydferth ac mae mwyafrif y trigolion yn ei barchu ac yn gweithredu'n gyfrifol. Fodd bynnag, mae yna rai unigolion sy'n tipio'n anghyfreithlon ac sy'n cynnig gwasanaethau anghyfreithlon ar gyfer cael gwared ar wastraff. Er ein bod ni'n cydnabod bod hwn yn amser rhwystredig i'n trigolion, mae talu am wasanaethau o'r fath yn anghyfreithlon ac fe allai arwain at gyhuddiadau troseddol. "

Rhaid i unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau cael gwared ar wastraff fod â thrwydded cludwr gwastraff. Rhaid iddynt hefyd fedru darparu derbynneb a ddylai

ddangos bod y gwastraff yn mynd i safle trwyddedig. Os na all y darparwr ddarparu'r wybodaeth hon, dylai trigolion hysbysu'r Cyngor Sir ar unwaith. ”

Ychwanegodd y Cynghorydd Richard Dew, “Mae'r Cyngor Sir yn gweithio'n ddiflino i gynnal ein gwasanaethau hanfodol a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau. Ni fyddwn yn goddef unrhyw ymddygiad anghyfreithlon neu wrthgymdeithasol a byddem yn ddiolchgar pe gallai trigolion weithio gyda ni a chwarae eu rôl wrth warchod ein cymunedau. ”

Os oes gan unrhyw un unrhyw bryderon ynghylch tipio anghyfreithlon, niwsans sŵn neu goelcerthi gardd, cysylltwch â'r Cyngor Sir ar (01248) 750057. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau yn ystod yr achosion Coronafeirws ewch i wefan Cyngor Sir Ynys Môn, [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) / coronafeirws

Byddwn hefyd yn:

- Paratoi bwletinâu rheolaidd ar gyfer yr orsaf radio leol [MônFM](#)
- A byddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth bwysig ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol –[Facebook](#), [Twitter](#) ac [Instagram](#)

Cofiwch hefyd i ddilyn y cyfarwyddyd diweddaraf gan [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a Llywodraethau [Cymru](#) a'r [Deyrnas Unedig](#)

Arhoswch gartref, arhoswch yn ddiogel, achubwch fywydau.

\*\*\*\*\*